OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2531 (Cy.246)

POBL ANABL, CYMRU

Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*1 Hydref 2003*
Yn dod i rym - -	*8 Hydref 2003*

Drwy arfer y pwerau a freiniwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol gan adrannau 28D(1), (2), (8) a (9), a 67(3)(a), o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 8 Hydref 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Cyfwng rhagnodedig ar gyfer paratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd

2. At ddibenion is-adrannau (1) ac (8) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, rhaid paratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd bob tair blynedd.

Cyfnod rhagnodedig ar gyfer strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd

3. At ddibenion is-adrannau (2) a (9) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, tair blynedd fydd y cyfnod rhagnodedig ym mhob achos, gan gychwyn ar 1 Ebrill a bydd cyfnod y strategaeth hygyrchedd cyntaf ac (yn ddarostyngedig i reoliad 4) y cynllun hygyrchedd gyntaf yn cychwyn ar 1 Ebrill 2004.

4. Mewn perthynas ag ysgol sydd yn cael ei sefydlu wedi 1 Ebrill 2004, at ddibenion adran (9) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, bydd cyfnod rhagnodedig cynllun hygyrchedd yr ysgol honno yn cychwyn ar y dyddiad y mae'r ysgol yn cael ei sefydlu ac yn gorffen

(**1**) 1995, p.50; mewnosodwyd adran 28D gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10), adran 14(1).
(**2**) Am ystyr "*prescribed*" a "*regulations*" *gweler* adran 28D(17) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.